

Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007 – 2022



CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL

CDLI36 - Dyluniad Blaen Siop

Mabwysiadwyd Mawrth 2017

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/ldp Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, 2^{il} Lawr, Adeilad Llyfrgell Llandudno, Mostyn Street, Llandudno LL30 2RP neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech siarad â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445 / 575124 / 574232.

Os hoffech chi gael dyfyniad neu grynoded o'r ddogfen hon ar gasét, mewn print bras, mewn Braille neu ar unrhyw ffurf arall, ffoniwch y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575461.

Datganiad Ymgynghori

Ymgynghorwyd yn gyhoeddus ynglŷn â'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn am gyfnod o chwe wythnos rhwng 5 Medi 2016 a 14 Hydref 2016

Cawsant eu mabwysiadu gan y Cabinet ar 14 Mawrth 2017

Mae copïau o'r sylwadau a gafwyd, ynghyd ag ymateb y Cyngor, i'w gweld ar-lein ar <http://conwy.jdi-consult.net/ldpcym/>

Cewch drwydded anghyfyngedig, ddirymiadwy, heb freindal i weld y Data Trwyddedig ar gyfer dibenion anfasnachol o fewn y cyfnod a nodir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy;

Nid oes gennych hawl copïo, is-drwyddedu, dosbarthu, gwerthu na darparu'r Data Trwyddedig i drydydd parti mewn unrhyw gyfrwng; a

Bydd hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon yn cael eu cadw i'r Arolwg Ordans.

Cynnwys

Tudalen

1	Cyflwyniad	4
1.1	Trosolwg	4
2	Cyd-destun y Polisi	4
2.1	Polisi Cenedlaethol.....	4
2.2	Cynllun Datblygu Lleol.....	4
3	Egwyddorion dyluniad blaen siop da	4
3.1	Wynebfwrdd	8
3.2	Blaen stondin	8
3.3	Pilastrau	8
3.4	Fframiau ffenestri a drysau.....	9
3.5	Capanau, consolau a chorbelau.....	9
3.6	Defnyddiau.....	9
4.7	Mynediad	9
4	Llenni a chanopiâu blaen siop	10
5	Arwyddion siopau	13
5.3	Caniatâd hysbysebu.....	14
5.4	Arwyddion Bargodol	16
5.5	Arwyddion canopi.....	17
5.6	Arwyddion Cymraeg.....	17
5.7	Arwyddion Eraill	17
	<i>Enghreifftiau o arwyddion canopi priodol</i>	18
6	Polisiau perthnasol eraill	18
6.1	Egwyddorion datblygu.....	18
6.2	Newid defnydd a diogelwch blaen siop.....	18
6.3	Treftadaeth ddiwylliannol.....	19
7	Cyflwyno cais cynllunio	19
7.1	Ymholiadau a thrafodaethau cyn cyflwyno cais	19
7.2	Ardaloedd cadwraeth ac adeiladau rhestredig.....	19
8	Cysylltiadau	20

1 Cyflwyniad

1.1 Trosolwg

- 1.1.1 Mae hon yn un o gyfres o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) sy'n rhoi cyngor pellach ar bolisiau a gynhwysir yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLI) Conwy. Bwriad CCA yw rhoi cyngor i ymgeiswyr cynllunio a bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Diben yr CCA hyn yw darparu canllawiau cynllunio ar bolisi CFS/7 Dyluniad Blaen Siop.
- 1.1.2 Mae'r CDLI yn rhoi pwys sylweddol ar flaenau siopau o ddyluniad addas gan eu bod yn hanfodol ar gyfer llunio cymeriad ac ymddangosiad blaenau siopau yn yr aneddiadau y maent wedi'u lleoli ynddynt. Mae'r CCA yn edrych ar ddyluniad blaenau siopau yn gyffredinol (mae CCA polisi CDLI CFS/8 – Diogelwch Blaen Strydoedd Siopa a CDLI 03 – Diogelwch Blaen Siopau yn mynd i'r afael â mesurau diogelwch derbyniol).

2 Cyd-destun y Polisi

2.1 Polisi Cenedlaethol

- 2.1.1 Mae pennod 10 Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn amlinellu amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer manwerthu a chanol trefi. Mae un o'r amcanion hyn yn gysylltiedig ag effaith blaen siopau ar lwyddiant canolfannau adwerthu ac mae hyn i 'wella egni, atyniad a hyfywedd canol trefi, rhanbarthau, ardaloedd lleol a phentrefi'
- 2.1.2 Mae'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol hefyd yn cynnwys canllawiau cyffredinol ynglŷn â dyluniad. Gweler Nodyn Cyngor Technegol 12 – Dyluniad (www.gov.wales/topics/planning/policy/tans)
- 2.1.3 Mae nifer sylweddol o siopau wedi'u lleoli yng nghanol trefi sydd wedi'u dynodi fel Ardaloedd Cadwraeth ac/neu adeiladau rhestredig. Mewn achosion o'r fath bydd polisi cynllunio cenedlaethol ynglŷn â chadwraeth yn berthnasol hefyd a bydd angen ceisio caniatâd priodol. Gweler adran 7 i gael rhagor o wybodaeth.

2.2 Cynllun Datblygu Lleol

Polisi CFS/3 - Dyluniad Blaen Siop

Ni fydd y Cyngor yn rhoi caniatâd cynllunio i gynigion ar gyfer blaen siop newydd neu addasiadau i flaen siop presennol oni fyddant yn gydnaws â'r adeilad a'r ardal gyfagos.

3 Egwyddorion dyluniad blaen siop da

- 3.1 Yn gyntaf oll, dylid ystyried cadw blaenau siopau presennol neu ran ohonynt os oes rhinwedd pensaernïol neu ddiddordeb hanesyddol yn perthyn iddo ac os yw'r strydweidd yn elwa ohono, neu mae'r potensial yno iddo elwa ohono o gael ei adnewyddu. I gael cyngor ar gadw blaenau siopau gwreiddiol, cysylltwch â Swyddog Cadwraeth y Cyngor (manyllion cyswllt yn adran 9).

- 3.2 Fel man cychwyn ar gyfer ystyried blaen siop newydd neu ailosod blaen siop, dylid cynnal asesiad o'r holl adeilad a'r eiddo cyfagos, gan gynnwys unrhyw flaenau siop traddodiadol sydd gerllaw, er mwyn asesu'r cymeriad presennol.
- 3.3 I nifer, blaen siop yw'r nodwedd y sylwir arni fwyaf mewn strydwedd. Trwy greu argraff gyntaf dda, gall blaen siop sydd wedi'i ddylunio'n dda ddenu siopwyr i fynd i mewn ac felly maent yn bwysig er mwyn creu a chynnal busnes llwyddiannus. Felly mae'n bwysig eu bod o faint da, gyda manylion a deunyddiau da.
- 3.4 Mae dyluniadau blaen siopau yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion a gyflawnodd berthynas foddhaol rhwng blaen y siop a'r adeilad cyfan. Nodir yr elfennau pwysig yn adran 3.2.
- Dylai arddull blaen y siop gyd-fynd ag oedran, cymeriad a chymesuredd yr adeilad cyfan.
 - Dylid datgelu unrhyw nodweddion gwreiddiol sydd ynghudd, megis pilastrau a wynebfyrddau, a'u hadnewyddu er mwyn gwella ymddangosiad blaen y siop.
 - Wrth ailosod blaen siop, dylid parchu cyfnod ac arddull yr adeilad o ran cymesuredd ac ansawdd y defnyddiau, a dylent gysylltu'n dda ag eiddo cyfagos.
 - Lle bo blaenau siopau cyfagos yn gweithredu fel unedau ar wahân, dylid mynegi pob blaen siop yn unigol drwy gadw neu ailgyflwyno pilastrau rhyngddynt.
 - Mae'r pilastr, y blaen stondin, y cornis a'r wynebfwrdd yn cyfuno i amgáu ffenestr a drws y siop o fewn ffrâm a adeiladwyd i fesuriadau sy'n cynnal talwyneb yr adeilad uwchlaw. Mae'r prif elfennau'n gymesur â'i gilydd; fel arfer, ni ddylai uchder y blaen stondin, nac ychwaith uchder y goruwchadeilad, fod yn fwy nag 20% o uchder cyfan gwbl blaen y siop.
 - Dylai drysau a mynedfeydd fod yn hawdd i bobl anabl fynd drwyddynt.
- 3.5 Dylai defnyddio'r egwyddorion sylfaenol hyn ar gyfer blaenau siopau traddodiadol neu gyfoes arwain at weddlun sy'n ddymunol i'r llygad.

Elfennau dylunio blaen siop





Enghreifftiau o Arddulliau Blaen Siop





3.1 Wynebfwrdd

3.1.1 Yn draddodiadol, roedd y wynebfwrdd yn fwrdd ar ongl oedd yn cynnwys enw'r masnachwr neu arwyddion eraill, wedi'i leoli rhwng y corbelau ar frig y pilastrau. Mae'r wynebfwrdd yn fan lle mae cyfle i greu arddull nodweddiadol ac unigryw. Gall dilyn yr egwyddorion canlynol arwain at strydwedd fasnachol o ansawdd uchel:

- Dylid cadw neu adfer cornisiau fel terfynau'r wynebfwrdd; dylid eu diogelu rhag tywydd garw gan ddefnyddio sêl blwm neu ddeunydd tebyg.
- Dylid cyfyngu ar led y wynebfwrdd o fewn y pilastrau a'r corbelau, neu ei osod yn ganolog â ffrâm y ffenestr islaw os yw'r corbelau ar goll.
- Dylid cyfyngu dyfnder y wynebfwrdd i'r un dyfnder â'r consol. Os nad oes yna gonsolau, y rheol gyffredinol yw na ddylai dyfnder y wynebfwrdd fod yn ddim mwy na phumed ran o'r pellter rhwng y cornis a'r palmant.
- Dylid defnyddio wynebfyrddau eiddo cyfagos fel arweiniad er mwyn unioni, ond nid o reidrwydd fel mesur safonol.
- Dylid lleihau wynebfyrddau sy'n rhy ddwfn pan fo blaen siop yn cael ei ailosod.
- Dylai'r wynebfwrdd gynnwys enw ac/neu fasnach yr eiddo ynghyd â rhif stryd yr eiddo a rhif ffôn os oes angen.
- Dylai'r lliwiau gyd-fynd â fframiau ffenestri'r siop. Dylai'r llythrennau fod yn syml ac yn eglur.
- **Nid yw lliwiau na defnyddiau sgleiniog, adlewyrchol neu lachar iawn yn briodol.**

3.2 Blaen stondin

3.2.1 Y blaen stondin yw'r paneli solet oddi tan ffenestr y siop; gallant gyflwyno undod llorweddol i'r strydwedd. Gallant hefyd ddarparu sylfaen weledol i flaen y siop, gan ddod ag arddangosiadau o nwyddau'n agosach at y siopwyr a diogelu'r gwydr rhag difrod.

- Dylai defnyddiau'r blaen stondin, y plinthiau a'r atalfeydd barchu'r prif adeilad a blaen y siop. Mae defnyddiau priodol yn cynnwys:- pren, gwaith cerrig, gwaith brics i gyd-fynd â'r talwynebau uwch, rendrad llyfn wedi'i beintio, llechen, cwareli, teils di-sglein neu derracotta, faience neu cerameg o ansawdd dda.
- Roedd rhaid cael blaen stondin draddodiadol ar gyfer pob siop fel arfer. Dylai'r uchder gael ei bennu gan fôn y pilastrau neu'r blaenau stondin traddodiadol ar unedau cyfagos.
- Dylai dyluniad cyffredinol a manylion y mowldinau a'r linteri barchu cyfnod pensaernïol yr eiddo.
- Argymhellir atalfa solet.

3.3 Pilastrau

3.3.1 Mae pilastrau'n cyfrannu i bwyslais fertigol adeilad ac yn darparu cynhaliaeth i'r siop a'r lloriau uwch. Dylai pilastr sefyll allan ychydig yn unig oddi wrth y wal, gyda bôn, paladr a chapau.

- Dylai pilastrau fod wedi'u modelu a dylent sefyll allan ychydig oddi wrth flaen y siop a'r lloriau uwch.
- Ni ddylid eu gorchuddio, eu trin ar wahân y naill ochr a'r llall na'u gorlenwi â gosodiadau megis arwyddion, blychau larwm neu ffitiadau llenni.
- Ar adeiladau hanesyddol, dylid trin y pilastrau mewn modd sy'n gydnaws ag arddull bensaernïol yr adeilad.

- Ar adeiladau hanesyddol, dylid copïo mowldinau addurniadol oddi ar siop wreiddiol gerllaw neu o lyfr patrymau hanesyddol.

3.4 Fframiau ffenestri a drysau

3.4.1 Drwy ddefnyddio lliw, siapau a mesuriadau diddorol, defnyddiau o ansawdd ac arddangosiadau ffenestr bywiog, gall ffenestri a drysau ychwanegu diddordeb gweledol i'r strydweidd a chynhyrchu uned siop unigol a nodweddiadol. Dylai hefyd wella gwerth yr eiddo a helpu gwella trosiant busnes.

- Dylai dyluniad manwl o faint, siâp a phroffil fframiau ffenestri, bariau gwydr a drysau barchu arddull bensaernïol a chyfnod yr eiddo.
- Dylai arwyneb ffenestri siop fod wedi'u cilio rhywfaint oddi wrth y pilastrau.
- Gall amrywio'r arwyneb, drwy osod drysau mewn cilfach neu grymu ffenestri, ychwanegu at y diddordeb gweledol. Mae ffenestri mewn cilfach ddofn neu flaenau siop sy'n gyfan gwbl agored yn amhriodol yn weledol ac yn swyddogaethol.
- Ar adeiladau hanesyddol, dylai blaen stondin o uchder traddodiadol fod yn rhan o'r dyluniad, gyda ffenestri'n agor uwchlaw'r uchder hwn yn unig.
- Dylai mannau gwydr eang ymgorffori arwydd gweledol (yn rhybuddio pobl â nam ar eu golwg fod gwydr yno), o leiaf 150mm o uchder, ar draws lled y man gwydr, ar ddau uchder: 850-1000mm a 1400-1600mm uwch lefel y ddau, i sicrhau y gwelir y gwydr i hun yn erbyn y cefndir a welir drwy'r gwydr.
- Dylai gwydr fod yn dryloyw bob amser, hyd yn oed mewn unedau nad ydynt yn rai masnach. Mae gwydr afloyw, barugog, adlewyrchol neu wedi'i dintio fel arfer yn amhriodol, onid oes swyddogaeth iddo mewn mannau bychan, dethol.
- Dylid defnyddio gwydr diogelwch annrillyddwy (gwydr lamedig) i sicrhau diogelwch y cyhoedd ac fel mesur diogelwch eiddo.

3.5 Capanau, consolau a chorbelaau

3.5.1 Mae'r rhain yn coroni'r pilastrau ac yn diffinio lled yr wynebwrdd. Maent yn elfen allweddol ar gyfer cynnal prif rythm fertigol strydwlun traddodiadol.

3.6 Defnyddiau

3.6.1 Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r amrediad amrywiol o ddefnyddiau a ddefnyddir mewn blaenau siop traddodiadol: Carreg Portland, marmor, ithfaen, terracotta, fframiau efydd, fframiau pren wedi'u paentio, gwydr plât neu grwm a rhwyllau haearn bwrw. Pren oedd y deunydd traddodiadol ar gyfer blaenau siop; gellir ei weithio i unrhyw broffil, mae'n wydn ac fe ellir ei ail baentio'n rhad os bydd angen newid neu adfywio'i ymddangosiad. Anogir y defnydd o ddeunyddiau traddodiadol fel pren wedi'i baentio lle bynnag y bo'n briodol, gan ganolbwyntio ar wydnwch i ymestyn hyd oes blaen y siop. Dylid osgoi defnyddio dalennau acrylig, Perspex, plastig, alwminiwm â gorffeniad naturiol safonol a phren meddal heb ei baentio. Dylai'r lliwiau fod yn rai traddodiadol a phriodol i'r adeilad a'r strydweidd. Dylid osgoi lliwiau gorliwgar neu orlachar.

4.7 Mynediad

4.7.1 Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu Ar Sail Anabledd yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau sy'n darparu gwasanaethau dydd i ddydd wneud addasiadau rhesymol i alluogi pobl anabl i fynd i mewn i'r eiddo. Bydd rhai addasiadau, er enghraifft rampiau mynediad, yn cael effaith ar ymddangosiad blaenau siopau. Mae'n bwysig felly, yng nghyd-destun polisi a chanllawiau'r CDLI, y gwneir addasiadau o'r

fath yn gydnaws â'r stryd wedd ehangach, gydag ystyriaeth ddyledus i effaith yr adeilad dan sylw ar y stryd wedd honno. Gellir gweld rhai enghreifftiau o addasiadau sy'n gydnaws yng nghanllawiau Cadw – Goresgyn y Rhwystrau:

http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Overcoming_the_Barriers_EN.pdf

4 Llenni a chanopïau blaen siop

- 4.1 Prif ddiben llen neu ganopi yw gwarchod nwyddau'r siop rhag difrod a achosir gan yr haul. Lle mae llenni defnydd llorweddol traddodiadol gwydrog neu godadwy eisoes yn bodoli, neu os oes tystiolaeth hanesyddol o ganopïau ar eich eiddo, byddem yn eich annog i'w cadw, eu trwsio neu eu hadfer.
- 4.2 Bydd angen caniatâd cynllunio (a chaniatâd adeilad rhestredig lle mae'r adeilad wedi'i restru'n statudol) i osod llen neu ganopi ar siop. Ni fydd ychwanegiadau anghydnaws i flaenau siop deniadol yn cael eu caniatáu, a gellid cymryd camau gorfodi i dynnu canopïau neu adlenni sydd heb eu hawdurdodi.
- 4.3 Lle cânt eu defnyddio, dylai llenni bob amser fod yn rhai codadwy, fel nad yw'r wynebfwrdd yn cael ei guddio'n barhaol. Yn draddodiadol, gwnaed llenni siopau o ganfas, gyda'r blwch cudd yn cael ei ymgorffori yng nghornis yr wynebfwrdd. Ni chaiff llenni eu caniatáu uwch lefel y llawr gwaelod.

Fel arfer, bydd canopi gwydrog sefydlog sy'n bargodi dros briffordd gyhoeddus angen lle clir fertigol o 2.6 metr ar y mwyaf, wedi'i fesur o arwyneb y briffordd i ochr isaf y canopi. Fel arfer, bydd canopi neu len sy'n plygu angen o leiaf 2.1 metr o le clir fertigol. Bydd angen o leiaf 0.9 metr o le clir llorweddol fel arfer o ymyl y lôn gerbydau i'r canopi.


Enghreifftiau o lenni amhriodol (Lluniau Hanesyddol)



- 4.4 O fewn Ardaloedd Cadwraeth neu ar adeiladau hanesyddol, ni chaniateir canopïau Iseldirol neu grwm nac unrhyw fath o ganopi plastig. Y rheswm am hyn yw y cânt eu codi fel arfer fel ffordd o gael mwy o le i hysbysebu ac maent yn tueddu i gyflwyno elfen rhy amlwg all guddio'r wynebfwrdd. Mae canopïau crwm a phlastig yn tueddu i fod yn anghydnaws â'r strydlun.
- 4.5 Nid yw defnyddio defnyddiau sy'n sgleiniog, ag ymddangosiad gwlyb, yn adlewyrchol neu'n ymestynol na lliwiau fflworoleuol fel arfer yn briodol o fewn Ardaloedd Cadwraeth nac ar adeiladau hanesyddol.
- 4.6 Gall **llen ddefnydd dau liw** draddodiadol neu debyg fod yn arbennig o addas ar gyfer blaen siop fechan draddodiadol, cyn belled â'i fod wedi'i ddylunio'n dda a'i wneud yn benodol i ffitio'n daclus uwch ffenestr y siop. Pan maent yn eu lle, maent yn dal i gynnig golwg dda o'r arddangosfa y tu mewn i'r siop ac yn cynnig awyrgylch groesawgar i'r siopwr sy'n pasio heibio. Gellir tynnu'r llenni'n gyfan gwbl a'u storio pan fo'r siop ar agor ar ddyddiau tywyll.



- 4.7 Dylid trwsio **canopïau gwydr** traddodiadol lle bo'r canopïau eisoes yno, a dylai canopïau gwydr newydd fod wedi'u dylunio'n dda ar sail tystiolaeth hanesyddol a'u gwneud yn bwrpasol i ffitio'n daclus o fewn blaen y siop, gyda llinellau terfyn clir yn dangos newid deiliadaeth.
- 4.8 Dylai strwythurau canopi gwydr newydd, neu rai sy'n bargodi, fod o leiaf 450mm o ymyl y lôn gerbydau (neu mae faniau danfon yn fwy tebygol o'u taro), gyda throedffordd glir 2m o led y tu ôl iddynt. Byddai'r droedffordd yn parhau i fod wedi'i mabwysiadu a bydd angen i feddiannydd yr eiddo gael trwydded dan y Ddeddf Priffyrdd i godi'r canopi.
- 4.9 Dylai canopïau fel arfer ymgorffori standiau gwydr neu haearn gyrru addurniadol, wedi'u cynnal ar fracedi addurniadol yn sownd wrth golofnau haearn bwrw i weddu â chymeriad blaen y siop neu ganopïau cyfagos.



5 Arwyddion siopau

- 5.1 Mewn iaith gyfreithiol, golyga hysbyseb unrhyw air, llythyren, model, arwydd, hysbyslen, hysbysiad neu gynrychioliad, wedi neu heb ei oleuo, yn natur, ac yn cael ei ddefnyddio yn gyfan gwbl neu'n rhannol er dibenion hysbyseb, cyhoeddiad neu gyfarwyddyd, ac sy'n cynnwys unrhyw hysbysfwrdd neu strwythur tebyg a ddefnyddir neu a addasir i ddangos hysbysebion. Mae hysbyseb gyda golau wedi'i anelu ato yn cyfrif fel arwydd wedi'i oleuo, yn ogystal â'r rheiny sydd wedi'u goleuo'n fewnol.
- 5.2 Mae'r cyngor a roddir yn bwriadu dangos arfer dylunio da ar gyfer arwyddion newydd ac adfer arwyddion yn briodol o fewn ac o amgylch ardaloedd cadwraeth ac ar adeiladau hanesyddol.

5.3 Caniatâd hysbysebu

5.3.1 Efallai y bydd angen Caniatâd Hysbysebu ar hysbysebion, i osod hysbyseb newydd neu hyd yn oed i adnewyddu hysbysebion sydd eisoes yno. Yn ogystal, efallai y bydd angen caniatâd arnoch os byddwch yn cyflwyno golau. Dylai ymgeiswyr gysylltu â'r Tîm Rheoli Datblygu am ragor o gyngor.

5.3.2 Ni fydd hysbysebion anghydnaws ar flaenau siopau yn cael eu cefnogi. Gellid cymryd camau gorfodi i erlyn am y drosedd ac i dynnu arwyddion anawdurdodedig i lawr.

Arwyddion wedi'u goleuo

5.3.1 Mae'n wir y gall arwyddion blwch wedi'u goleuo'n fewnol ar wynebfwrdd fywiogi canolfan siopa lwm, ond mae mwyfwy o'r arwyddion blwch a osodir yn mynd yn erbyn llinellau'r wynebfwrdd gwreiddiol ac maent weithiau'n difa manylion megis corbelau neu gornisiau sy'n amgylchynu blaen y siop wrth gael eu gosod, am eu bod yn rhy fawr.

5.3.2 Mae llythrennau unigol wedi'u goleuo neu â lleugylch, sydd wedi'u dylunio'n ofalus ac yn greadigol, yn fwy derbyniol na blwch sydd wedi'i oleuo'n gyson, heb lawer o bosibilrwydd o olau tanbaid. Bydd y cyngor yn rhoi ystyriaeth i'r disgleirdeb arfaethedig wrth ystyried hysbysebion wedi'u goleuo ac yn gwrthod caniatâd i unrhyw hysbyseb sy'n ymddangos yn rhy ddisglair.

5.3.3 Ni chaniateir arwyddion blwch wedi'u goleuo nac unrhyw fath o arwyddion finyl / acrylig o fewn Ardaloedd Cadwraeth nac ar adeiladau hanesyddol. Y rheswm am hyn yw eu bod yn mynd yn elfennau rhy amlwg, all guddio'r wynebfwrdd a gorchuddio nodweddion pwysig ar flaen y siop.

Enghreifftiau o arddulliau arwyddion annerbyniol neu nad ydynt yn cael eu hannog



Enghreifftiau o arddulliau arwyddion derbyniol



5.4 Arwyddion Bargodol

- 5.4.1 Y math o arwydd bargodol a ffafir yw'r arwydd bwrdd crog traddodiadol. Os oes rhaid ei oleuo, dylid gwneud hyn gyda chafnau goleuo wedi'u gosod ar frig y bwrdd, neu gyda sbotoleuadau bychain wedi'u gosod ar y fraced gynhaliol. Mae nifer o arwyddion blwch bargodol amhriodol wedi'i goleuo'n fewnol ar hyn o bryd mewn Ardaloedd Cadwraeth, ond ystyrir arwyddion crog yn fwy priodol lle mae blaen y siop o gymeriad traddodiadol, ac felly caiff y rhain eu hybu.
- 5.4.2 Os ystyrir arwyddion blwch yn dderbyniol, y bargodiad cyfan gwbl mwyaf a ganiateir oddi wrth wyneb yr adeilad yw 700mm, tra gellid bod yn fwy hyblyg gyda maint a bargodiad cyfan gwbl arwydd crog traddodiadol heb ei oleuo.

- 5.4.3 Anogir y defnydd o arwyddion bargodol a ddangosir yn draddodiadol gan fusnesau penodol, megis pestl a morter fferyllfa. Gall arwyddion o'r math hwn ychwanegu diddordeb ac amrywiaeth i'r strydwedd.

Enghreifftiau o arwyddion bargodol annerbyniol



Enghreifftiau o arwyddion crog / bargodol derbyniol



5.5 Arwyddion canopi

- 6.6.1 O fewn Ardaloedd Cadwraeth neu ar adeiladau hanesyddol, ni fydd canopiau Iseldirol neu grwm nac unrhyw fath o ganopi plastig yn cael eu cefnogi. Y rheswm am hyn yw y cânt eu gosod fel arfer i gael mwy o le i hysbysebu ac nid ydynt yn nodwedd draddodiadol ar y cyfan. Fodd bynnag, ffefrir ailgyflwyno canopiau gwydr, er y dylid cymryd gofal i beidio ag ymgorffori enw'r busnes (oherwydd natur fyrhoedlog meddianwyr siopau).

5.6 Arwyddion Cymraeg

- 6.7.1 Bydd y Cyngor yn annog y defnydd o arwyddion dwyieithog lle bo hynny'n bosibl. Cynigir gwasanaeth cyfieithu cymunedol gan Fenter Iaith, Llanrwst. Anfonwch neges e-bost at post@cyfieithucymunedol.org i gael rhagor o wybodaeth (gellir codi tâl am gyfieithu).


5.7 Arwyddion Eraill

- 5.7.1 Ar y cyfan, ni fydd unrhyw hysbysebion yn briodol ar loriau uwch adeilad, ar wahân i enwau'r busnesau sydd wedi'u lleoli ar loriau uwch, y gellir eu harddangos ar eu ffenestri drwy osod llythrennau du neu aur yn uniongyrchol ar y gwydr mewn proses a elwir yn llythrennu o chwith. Mae cynsail hefyd ar gyfer arwyddion mosäig cywain o fewn blaenau siop mewn cildach, a dylid ystyried hyn.

Enghreifftiau o arwyddion canopi priodol



Enghreifftiau o lythrennu priodol



6 Polisïau perthnasol eraill

6.1 Egwyddorion datblygu

6.1.1 Mae polisi CDLI DP/3 yn hyrwyddo ansawdd dylunio ac yn ceisio lleihau troseddu. Mae polisi DP/4 yn manylu meini prawf datblygu. Gallai'r ddau bolisi hyn fod yn berthnasol.

6.2 Newid defnydd a diogelwch blaen siop

6.2.1 Mae polisïau CDLI CFS/3 Prif Ardaloedd Siopa a CFS/4 Ardaloedd Siopa yn berthnasol i unrhyw gynigion am newid defnydd o A1 yn yr ardaloedd siopa dynodedig. Mae CDLI23 – CCA Newid defnydd o fewn canol trefi a chymdogaethau yn cyd-fynd â'r polisïau hyn.

- 6.2.2 Mae Polisi CDLI CFS/8 Diogelwch Blaen Strydoedd Siopa, a CCA CDLI3 Diogelwch Blaen Siopau yn ystyriaethau hynod o bwysig a dylid eu hystyried wrth gynllunio newidiadau i flaen siopau.
- 6.2.3 Mae copïau o'r CCA a nodwyd uchod ar gael yma: www.conwy.gov.uk/cdli/cca

6.3 Treftadaeth ddiwylliannol

- 6.3.1 Mae Polisiâu CDLI CTH/1 a CTH/2 yn berthnasol. Mae'r polisiâu hyn yn ceisio cadw ac/neu wella, lle bo angen, yr asedau treftadaeth o fewn y Bwrdeistref Sirol, er enghraifft, Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth neu Adeiladau neu Adeileddau o Bwysigrwydd Lleol. Mae nifer sylweddol o siopau wedi'u lleoli o fewn Ardaloedd Cadwraeth, felly mae'n bwysig cydnabod yr effaith mae blaenau siopau'n eu cael ar ddynodiadau treftadaeth o'r fath.
- 6.3.2 Bwriedir i'r cyngor y mae'r CCA hwn yn ei gynnwys gael ei ddarllen ochr yn ochr â'r Gwerthusiad neu Gynllun Rheoli Ardal Gadwraeth briodol lle bo'r rhain ar gael. Ewch i www.conwy.gov.uk/ldp/spg. Mae Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol Conwy hefyd yn adnodd gwybodaeth defnyddiol a dylid ei wirio i gael gwybodaeth ynglŷn ag adeiladau hanesyddol.

7 Cyflwyno cais cynllunio

7.1 Ymholiadau a thrafodaethau cyn cyflwyno cais

- 7.1.1 Mae ceisiadau cynllunio a ffurflenni ymholiadau cyn cyflwyno cais, ynghyd â nodiadau cyfarwyddyd, ar gael o swyddfeydd Cynllunio'r Cyngor, neu i'w lawrlwytho o wefan y Cyngor: www.conwy.gov.uk/planning
- 7.1.2 Gellir cyflwyno ceisiadau cynllunio naill ai fel copi caled neu'n electronig drwy'r Porth Cynllunio www.planningportal.gov.uk

7.2 Ardaloedd cadwraeth ac adeiladau rhestredig

- 7.2.1 Efallai y bydd angen Caniatâd Ardal Gadwraeth os yw'r cais yn cynnwys dymchwel rhan sylweddol neu'r cyfan o adeilad neu adeiledd, a bydd angen Caniatâd Adeilad Rhestredig os bydd unrhyw newid strwythurol i'r adeilad neu newid sylweddol i olwg adeilad rhestredig. Mae'r broses yn un debyg i'r broses o wneud cais cynllunio, ac unwaith y sefydlir bod angen Caniatâd Ardal Gadwraeth neu Ganiatâd Adeilad Rhestredig, dylid cyflwyno'r ddau gais ar yr un pryd, naill ai fel copi caled neu'n electronig drwy'r Porth Cynllunio www.planningportal.gov.uk. Mae ffurflenni cais perthnasol a nodiadau cyfarwyddyd ar gael gan y Cyngor.

8 Cysylltiadau

Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol	2il Lawr Adeilad Llyfrgell Llandudno Mostyn Street, Llandudno. LL30 2RP	Ffôn: 01492 575461 E-bost: cdll.ldp@conwy.gov.uk
Adran Rheoli Datblygu (yn cynnwys Cadwraeth)	Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn, LL29 8AR	Ffôn: 01492 575247 E-bost: gwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk
Iechyd yr Amgylchedd	Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn, LL29 8AR	Ffôn: 01492 575283 E-bost: gwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk
Priffyrdd (Gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau)	Swyddfeydd Mochdre, Ffordd Conwy, Mochdre, Bae Colwyn, LL28 5AB	Ffôn: 01492 575337 E-bost: affch@conwy.gov.uk
Rheoli Adeiladau	Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn. LL29 8AR	Ffôn: (01492) 574172 E-bost: gwasanaethau.rheoleiddio@conwy.gov.uk